



Ffermio a Bywyd Cefn Gwlad

Mae wyth deg y cant o dir Cymru'n wledig, ac ystyrir 60% o'r ardaloedd gwledig yn 'ardaloedd gwledig anghysbell' – mwy na 30 munud o waith gyrru oddi wrth wasanaethau hanfodol megis siop, swyddfa bost, banc ac ysgol. Mae tua 35% o boblogaeth Cymru'n byw mewn ardaloedd gwledig¹, sy'n gyfran uwch nag mewn unrhyw ranbarth yn Lloegr.

Amaethyddiaeth

Ffermio yw sylfaen bywyd yng nghefn gwlad Cymru. Cyflogir tri y cant² o'r gweithlu yng Nghymru mewn amaeth – teirgwaith yn uwch na'r ganran ar gyfer y DU gyfan. Ond mae llawer o'r swyddi hynny'n ansicr: mae mwy na hanner y 69,000 o bobl a gyflogir ar y ffermydd – gan gynnwys perchnogion y ffermydd – yn gweithio'n rhan-amser neu dros dro³.

Nid yw pris peint o laeth yn yr archfarchnad yn cyfateb o gwbl i gost ei gynhyrchu ar y fferm. Mae ffermwyr godro'n colli arian mawr ar gynhyrchu llaeth. Ar yr un pryd, mae pris cig oen yn amrywio'n barhaus; ac mae cig oen rhad o Seland Newydd yn ymddangos yn y siopau.

Dywedir bod mwy nag erioed o achosion o dwbercwlosis buchol (y diciáu) yn Sir Gaerfyrddin. Mae ymgyrch Llywodraeth Cymru i frechu moch daear i rwystro twbercwlosis rhag lledaenu ymysg gwartheg ar ganol cyfnod prawf o bum mlynedd, ond cred llawer o ffermwyr nad yw'n gweithio. Mewn cyferbyniad, mae'n ymddangos bod y nifer o achosion o dwbercwlosis yn gostwng mewn ardaloedd fel Swydd Gaerloyw lle bu rhaglen difa moch daear ar waith. Mae amheuaeth o dwbercwlosis mewn buches yn golygu cyfyngiadau am gyfnod hir ar symud y gwartheg ac nid yw'r iawndal am anifeiliaid a gollir yn ddigon i dalu am rai yn eu lle. Mae hefyd yn bygwth parhad llinachau cyfan o stoc.

Mae Llywodraeth Cymru, yn yr un modd â'r llywodraethau eraill yn y DU, wedi newid i drefn o dalu 'taliad sylfaenol' i ffermwyr. Mae gofyn llenwi llwythi o waith papur ac mae'r Llywodraeth yn gwirio'n fanwl iawn i sicrhau nad oes unrhyw dwyllo. Y dyddiad talu arferol i ffermwyr yw 1 Rhagfyr bob blwyddyn, ond bu oedi mewn llawer o achosion yn 2015. Mae contractwyr a chyflenwyr wedi arfer â disgwyl hyd fis Rhagfyr cyn y telir eu biliau, ond mae unrhyw oedi pellach yn effeithio'n andwyol iawn ar fusnesau a chymunedau lleol.

Bygythiadau i fywyd y gymuned

Mae erydu ar gymunedau Cymreig clos yng nghefn gwlad oherwydd yr angen i bobl symud i ffwrdd i geisio gwaith. Yn ogystal, mae'r nifer o ail gartrefi neu gartrefi gwyliau yng nghefn gwlad Cymru ymhlith yr uchaf yn y DU. Yng Ngwynedd, ceir y ganran uchaf o gartrefi gwyliau ymhlith holl awdurdodau lleol Prydain, gyda 10% o'r boblogaeth yn berchnogion ail gartrefi sydd â'u prif gyfeiriad rywle arall⁴.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol o fywyd yng nghefn gwlad. Yn Siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn, mae mwy na 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mewn tua hanner o'r ardal honno – Gwynedd ac Ynys Môn – mae hyd at 65% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg⁵.

Y prif fygythiad i fywyd cefn gwlad yw colli pobl ifanc a theuluoedd, a hynny oherwydd diffyg swyddi. Mae pentrefi cyfan yn troi yn aneddiadau noswyllo i gymudwyr – os ydynt yn ddigon agos i drefi neu gysylltiadau cludiant – neu'n 'bentrefi gwyliau'. Yn aml nid oes siop yn y pentref ac mae ysgolion cynradd yn cael eu cyfuno. Er mwyn datblygu gweithgareddau economaidd amgen, mae band eang cyflym iawn yn hanfodol, ond, er gwaethaf addewidion Telecom Prydain a Llywodraeth Cymru, prin fod band eang yng nghefn gwlad ar hyn o bryd hyd yn oed yn cyrraedd cyflymder arferol.

Aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd

Cynhelir etholiad Cynulliad Cymru wrth i'r ddadl boethi ynglŷn â'r refferendwm sydd i ddod ynghylch a ddylai'r DU barhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn peri pryder mawr i lawer o ffermwyr Cymru. Mae'r mwyafrif llethol o allforion i wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae llawer o bobl yn teimlo y byddai dyfodol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn fwy ansicr fyth.

Cwestiynau i ymgeiswyr

1. Beth allwch chi ei wneud i gynorthwyo ffermwyr Cymru fel y gellir prisio cig oen a gynhyrchir yng Nghymru ar lefel sy'n gystadleuol â chig oen a fewnforir o'r ochr arall i'r byd?
2. A ydych o blaid brechu ynteu ddifa moch daear i atal twbercwlosis mewn gwartheg?
3. Mae pobl yn hoffi ymddeol i gefn gwlad Cymru oherwydd y golygfeydd hyfryd a'r cymunedau cyfeillgar. Ond sut y byddant yn ymdopi wrth fynd yn hŷn, heb unrhyw siopau, gwasanaethau na chludiant yn lleol?
4. A ddylem aros yn yr Undeb Ewropeaidd? Beth fydd yn digwydd os byddwn yn gadael?

Gallwch weld mwy am y materion hyn mewn fideo ar wefan Cytûn,
<http://www.cytun.org.uk/etholiadau2016>

Cyfeiriadau

- 1 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *2011 Census Analysis*, Tachwedd 2013 http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_337939.pdf (gwelwyd 29 Ionawr 2016)
- 2 Ystadegau ar gyfer Cymru, *Cyflogaeth gweithle sifil fesul diwydiant*, Hydref 2015 <http://gov.wales/statistics-and-research/work-place-employment-industry/?skip=1&lang=cy> (gwelwyd 13 Ionawr 2016)
- 3 Ystadegau ar gyfer Cymru, *Ystadegau Amaethyddol Cymru 2014, 2015*, t43, tabl 3.1 <http://gov.wales/docs/statistics/2015/151028-welsh-agricultural-statistics-2014-ency.pdf> (gwelwyd 13 Ionawr 2016)
- 4 Ystadegau ar gyfer Cymru, *Cyfrifiad 2011: Amcangyfrifon ar ail Gyfeiriadau ar gyfer Awdurdodau Lleol ac Unedol yng Nghymru ac yn Lloegr*, Hydref 2012 <http://gov.wales/docs/statistics/2012/121031-census-2011-second-address-estimates-local-unitary-authorities-england-wales-cy.pdf> (gwelwyd 28 Ionawr 2016)
- 5 Ystadegau ar gyfer Cymru, *Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg*, Rhagfyr 2012 <http://gov.wales/docs/statistics/2012/121211sb1182012cy.pdf> (gwelwyd 28 Ionawr 2016)